

Dal Ati



ARWEINYDD

Annwyl ffrindiau, croeso i chi i'r oedfa; boed i'r Arglwydd Iesu Grist fod yn agos atoch i'ch cynnal, o'ch mewn i'ch adfywio, o'ch amgylch i'ch amddiffyn, o'ch blaen i'ch arwain, o'ch ôl i'ch cyfiawnhau, uwchlaw i'ch bendithio: yr hwn sy'n byw a theyrnasu gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn un Duw yn oes oesoedd.

'Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd; clodforwch ef, yr holl bobloedd. Oherwydd mae ei gariad yn gryf tuag atom, ac y mae ffyddlondeb yr Arglwydd dros byth. Molwch yr Arglwydd.' (Salm 117)

GWEDDI

O Dduw ein Tad, gweddïwn am dy gymorth i'n harwain yn ddiogel drwy bob dydd o'n hoes, a gad i ni gofio, yn barhaus, NAD ydym yn wynebu unrhyw beth ar ein pen ein hunain. Diolchwn am sicrwydd ffydd y deugn drwy unrhyw beth yn ddiogel dan dy arweiniad a'th gynhaliath di. Gweddïwn arnat i'n goleuo o'r newydd a chadarnhau ein ffydd. Cyfaddefwn ein bod yn aml yn teimlo mor ansicr ac yn ofnus o'n dyfodol. Bydd gyda ni gan ein bod yn gofyn hyn yn enw Iesu Grist. Amen

EMYN 685 'Brwydra bob dydd, cryfha dy ffydd'

DARLLENIAD Salm 62

EMYN 758 'Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr'

GWEDDI

O Dad nefol, yng nghanol gofidiau amrywiol, mae pob calon yn agored i ti, pob dymuniad yn hysbys i ti, ac ni allwn guddio un dim oddi wrthynt. Gofynnwn am dy gymorth i ddal ati mewn cyfnod pryderus ac ofnus iawn. Cyffeswn ein bod ar adegau yn wan ein ffydd, gan i amheuon ein llethu. Bydd yn agos atom pan fydd amheuaeth yn trechu ein hyder ynot ti a digalondid yn ein llethu. Dyro i ni hyder a ffydd o'r newydd i ddal ati i ymddiried ynot, ac i gredu y daw eto gyfnod gwell yn ein bywydau. Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist, yr Hwn a'n dysgodd pan yn gweddio i ddweud gyda'n gilydd Ein Tad . . .

ARWEINYDD

Yn y rhan yma o'n gwasanaeth hoffwn i chi wrando ar gân hyfryd iawn. Cawn y fraint o wrando ar CD – cân fuddugol Cân i Gymru 2022, sef 'Mae yna le' gan Rhydian Meilir, yn cael ei pherfformio gan Ryland Teifi.

DARLLENIAD Philipiaid 4: 4–9.

EMYN 343 'Nid ar fore hafddydd tawel'

ARWEINYDD

'Dal ati' yw fy neges i heddiw. Rydym yn brwydro mewn gwahanol ffyrdd, drwy gyfnodau o ofn ac ansicrwydd, a'r rheiny'n eithriadol o anodd ac unig i lawer. Mae pawb ohonom wedi cael ein heffeithio mewn rhyw fodd neu gilydd gan afiechyd, boed arnom ni ein hunain, neu rywun annwyl i ni. O'r aelodau fengaf yn ein plith i'r hynaf. O fyd addysg i ieuchyd meddwl, corfforol ac ysbrydol. Trwy'r cwbl, gallaf eich sicrhau nad ydych ar eich pen eich hunain yng nghanol holl dreialon y daith.

Fe ddywedodd y bardd William Blake, 'Does dim camgymeriad mwy i'w wneud na'r camgymeriad o beidio dal ati'. Ymhell cyn i Alexander Graham Bell fynd ati i wneud arbrofion a fyddai'n arwain at greu'r teliffon, roedd athro ysgol Almaenig bron wedi llwyddo i lunio un. Gallai teliffon Herr Reis gario synau chwibanu a hymian yn ddigon clir, ond doedd hi ddim yn bosibl i'r teclyn gario llais yn siarad. Roedd rhywbeth ar goll. Yn y diwedd, anobeithiodd Herr Reis a rhoi'r ffidil yn y to. Flynyddoedd yn ddiweddarach, darganfu Bell beth oedd natur y broblem hefo ffôn Reis. Roedd angen troi sgriv fechan iawn iawn – y sgriv oedd yn rheoli maint yr *electrodes* – o filfed rhan o fodfedd, dyna i gyd. Pan wnaeth Bell y newid bach yma a throi'r sgriv i'w man priodol, llwyddodd ei ffôn ef i gario llais yn glir.



Meddylwch am y peth. Doedd dim angen newidiadau mawr yng nghynllun Reis – roedd y gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant mewn milfed o fodfedd – ond fe newidiodd y filfed o fodfedd honno bopeth.

Y neges i ni heddiw yw 'peidiwch ag anobeithio a daliwch ati. Gwnewch newidiadau nes eich bod yn llwyddo a daliwch ati.' Gall hyn weithio yn eich erbyn neu o'ch plaid. Dewiswch y pethau fydd o'ch plaid a daliwch ati.

Cofiw'n eiriau 1 Thesalonïaid, pennod 5, ac adnod 23, 'Bydded i Dduw'r Tangnefedd ei hun eich sancteiddio chwi yn gyfan gwbl, a chadw eich ysbryd, a'ch enaid a'ch corff yn gwbl iach a di-fai hyd dyfodiad eich Harglwydd Iesu Grist.'

Ambell dro, pan fyddwn ni'n wirioneddol ddigalon neu'n ofidus, rydym yn dyheu am gael rhywun i afael amdanom ac aros yn agos atom.

Yn ystod pandemig y Covid-19, nid ydym wedi gallu bod yna i'n gilydd fel y dymunem fod; nid oedd yn bosib i ni afael yn ein gilydd, ac weithiau nid yw geiriau'n ddigonol. Ond mae presenoldeb person yn sicr yn bwysig. Ystyr y gair Groeg am 'ddiddanwch' a ddefnyddir droeon yn y Beibl yw 'sefyll wrth ochr rhywun'. Dymunaf gymorth yr Ysbryd i bob un ohonoch heddiw.

Roedd yr Apostol Paul yn aml yn gorfod wynebu poen, carchar a thorcalon ar ei ben ei hun, cyn belled ag yr oedd person dynol yn bod, ond roedd yn ymwybodol iawn bod Duw wrth ei ochr, hyd yn oed os nad oedd yn medru gweld Duw yn gorfforol. Roedd y profiad hwnnw'n help i Paul sefyll wrth ochr pobl eraill oedd mewn trallod.

Mae bod ar ben ein hunain yn galed, ond fe all ddysgu gwers i ni a fydd yn ein galluogi i helpu eraill. Mae ar ein byd wir angen pobl sy'n medru cydymdeimlo a gwrando, rhai sy'n fwy na pharod i sefyll wrth ochr y rhai sydd mewn amgylchiadau anodd. Pan fo'r storm ar ei gwaethaf, bryd hynny y bydd Duw ar ei orau. Gall Duw ddarparu, ond rhaid i ni gyflawni.

Gadewch i'r cyfnod rhyfeddol hwn rydym yn byw drwyddo ar hyn o bryd ein newid am y gorau a'n cynorthwyo i gofio 'Adfyd a ddaw â dysg yn ei law' medd yr hen air; er mor amhleserus mewn rhai ffyrdd, mae'n rhaid i ni wneud y gorau o'r amser, ac fe ddaw enfys wedi'r glaw.

Gadewch i ninnau fod yn barod i ddysgu a symud ymlaen y gorau medrwn i'r dyfodol yn hyderus ac yn obeithiol. 'Peidiwch felly â phryderu am yfory, oherwydd bydd gan yfory ei bryder ei hun. Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun.' Mathew 6:34

Cofiwn eiriau'r gerdd Desiderata, 'Rho glust garedig i gyngor doeth profiad, gan ildio'n rasol bethau bachgennaidd. Maga gryfder ysbryd yn gysgod rhag cawod chwith. Ond paid â drysu gan ddrwgfeddyliau du. Ffrwyth blinder ac unigrwydd yw llawer gofid. Oddieithr disgyblaeth iach, bydd yn fwyn â thi dy hun.'

I gloi, cofiwn eiriau Martin Luther King: 'Ac yn awr, i'r hwn sydd yn abl i'n cadw rhag syrthio, a'n codi o ddyffryn tywyll anobaith i fynydd disglair gobaith, o ganol nos dywyllaf pob arswyd i wawr llawenydd; iddo ef y bo'r gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd.' Amen

EMYN 740 'Arglwydd Iesu, arwain f'enaid'

Y FENDITH

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân fyddo gyda chwi oll. Amen

(C.A.)